Comisiwn y Senedd
Senedd Commission

**SC(6)2022-03-14 Papur 4**

**Dyddiad y cyfarfod:** 14 Mawrth 2022

**Enw a rhif cyswllt:** Ed Williams [redacted]

# Contract Arlwyo

## Diben a chrynodeb

1. I gynghori'r Comisiwn ar opsiynau adnewyddu ar gyfer y contract arlwyo, fel y cafodd ei ystyried yn ddiweddar gan y Bwrdd Gweithredol, a cheisio barn ar yr argymhelliad.

2. Ystyriodd y Comisiwn bapur ar opsiynau adnewyddu'r contract arlwyo ym mis Mawrth 2021 a chytunodd, oherwydd effaith y pandemig ar y gwasanaeth, y dylid ymestyn y contract am 12 mis hyd at fis Medi 2022. Rhagwelwyd y byddai hyn yn rhoi cyfle i gael gwell dealltwriaeth o'r anghenion arlwyo yn y dyfodol ar ôl mwy o sefydlogrwydd o ran dychwelyd i'r swyddfa.

3. Tra bod y gwasanaethau arlwyo wedi bod yn gweithredu ar y safle yn dilyn yr etholiad, mae cyfyngiadau pandemig parhaus wedi golygu bod nifer y staff ar yr ystâd wedi parhau'n isel dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi gallu treialu rhai gwasanaethau newydd ond mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch y galw am wasanaethau yn y dyfodol a lefelau sy'n debygol o esblygu a datblygu dros y flwyddyn neu ddwy nesaf. Bydd y gofynion yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â diwygio'r Senedd a'r rhaglen Ffyrdd o Weithio newydd yn dod yn gliriach dros amser.

4. Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol yr opsiynau a ganlyn ar gyfer adnewyddu'r contract arlwyo:

    - Aildendro erbyn Medi 2022
    - Ymarferoldeb rhannu'r contract yn lotiau i annog cyflenwyr Cymreig llai i dendro.
    - Dod â'r gwasanaeth yn fewnol

Contract Arlwyo

5. Gan ystyried gweithrediad y gwasanaeth dros y flwyddyn ddiwethaf a'r ansicrwydd ynghylch gofynion o ran lefel y gwasanaeth yn y dyfodol, cytunodd y Bwrdd Gweithredol mai'r opsiwn mae'n ei ffafrio fyddai ail-dendro am gontract byrrach am ddwy flynedd, gydag opsiynau ar gyfer dau estyniad o flwyddyn os oes angen.

6. Byddai hyn yn galluogi ystyried dichonoldeb opsiynau mwy arloesol yn y dyfodol a'u gweithredu, gan gynnwys yr opsiynau ychwanegol a ystyriwyd yn flaenorol i ddod â'r gwasanaeth yn fewnol [redacted]

**Argymhellion**

7. Gofynnir i'r Comisiwn ystyried argymhelliad y Bwrdd Gweithredol.

**Diweddariad ar Ddarpariaeth y Gwasanaeth**

8. Ailddechreuodd y gwasanaeth arlwyo ar y safle yn dilyn yr etholiad. [redacted]

9. Gan weithio gyda Charlton House, datblygwyd cyllideb amcangyfrifedig a chynlluniau ar gyfer gwasanaethau yn ystod yr estyniad o flwyddyn i gynnwys treialu rhai gwasanaethau newydd fel bar deli, mwy o opsiynau bwyd i fynd, gwasanaeth coffi barista a gwell siop. Roedd y gyllideb amcangyfrifedig yn seiliedig ar ddychwelyd yn raddol i'r swyddfa gyda nifer y staff ar yr ystâd yn dechrau ar 30% yn yr hydref ac yn cynyddu i 75% erbyn yr haf. Am bedwar mis cyntaf yr estyniad, mae costau'r gwasanaeth arlwyo wedi gweithredu o fewn y gyllideb y cytunwyd arni ac rydym yn rhagweld y byddwn yn gallu rheoli'r costau o fewn y gyllideb o £399,000 a ddyrannwyd hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

10. O ran y gwasanaethau arlwyo a ddarperir, treialwyd y gwasanaeth bar deli am ddau fis ac roedd yn boblogaidd iawn. Fodd bynnag, wrth i nifer y staff ar y safle leihau ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr, tynnwyd y gwasanaeth hwn yn ôl dros dro ond bydd yn cael ei ailgyflwyno pan fydd nifer y staff ar y safle yn cynyddu. O ran gwerthiannau, am y tri mis cychwynnol o fis Medi, roedd gwerthiant yn dangos tuedd gadarnhaol o ran cynyddu o lefelau isel iawn i tua 40% o werthiannau cyn y pandemig. Roedd galw mawr hefyd am wasanaeth pryd gyda'r nos ym Mharlwr Te'r Aelodau ar ddiwrnodau busnes. Darparwyd lletygarwch hefyd i gefnogi nifer cyfyngedig o ddigwyddiadau yn dychwelyd i'r ystâd. Roedd

yna hefyd archebion ychwanegol a gafodd eu canslo ym mis Rhagfyr. Yn unol â hynny, roedd arwyddion cadarnhaol o gynnydd graddol yn y galw am wasanaethau yn unol â staff yn dychwelyd i'r ystâd. Er i'r caffi cyhoeddus agor o ddydd Llun i ddydd Iau o fis Medi i fis Rhagfyr, ac mae wedi ailagor eto yn ddiweddar, roedd nifer yr ymwelwyr yn isel iawn.

11. Yn ystod mis Rhagfyr a hyd at ddiwedd Ionawr, gostyngodd y niferoedd ar y safle yn sylweddol yn unol â Lefel Rhybudd 2. Yn sgil dychwelyd i Lefel 0 o ddechrau mis Chwefror dychwelwyd yn raddol eto i'r swyddfa wrth i ni symud at y gwanwyn ac ar ôl hynny. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i dreialu mathau newydd o wasanaeth ac asesu'r costau amcangyfrifedig o fis Ebrill ymlaen yn unol â chynnydd graddol yn nifer y staff ar y safle o 30% i fyny.

[redacted]

**Yr opsiynau a ystyriwyd**

**Opsiwn 1 – aildendro'r contract am gontract dwy flynedd byrrach, gydag estyniadau dewisol yn seiliedig ar y model contract presennol ond gyda hyblygrwydd i addasu yn unol â dychwelyd i'r swyddfa yn y dyfodol**

13. Mae'r ffaith bod cyfyngiadau'r pandemig yn parhau wedi effeithio ar ein gallu i ddatblygu data sylweddol am nifer y staff fydd ar y safle yn y dyfodol pan fydd mwy yn dychwelyd i'r swyddfa. Fodd bynnag, mae gennym ddata y gellir ei rannu am werthiannau arlwyo ac incwm ar gyfer cyfnod yr hydref sy'n dangos y tueddiadau ar draws dyddiau'r wythnos (Atodiad 1).

14. Gallwn hefyd gynnwys gwybodaeth am y cynigion ar gyfer mathau newydd o wasanaeth. Byddwn hefyd yn gallu darparu data am lefelau gweithredu cyn y pandemig ar gyfer pob agwedd ar y gwasanaeth a cheisio gwahodd tendrau ar ganrannau is o ran nifer y staff ar y safle fesul cam o 30% i 50% a 75% a sicrhau bod hyblygrwydd i addasu ac esblygu'r gwasanaeth yn unol â dychwelyd i'r swyddfa ac addasu arddulliau gwasanaeth yn ôl yr angen yn ystod y contract nesaf. Er enghraifft, ar ddiwrnodau tawelach, mae gwasanaeth archebu drwy alwad wedi'i dreialu'n llwyddiannus a gallai hyn esblygu i fod yn rhan o'r gwasanaeth neu i gynnig hyblygrwydd ychwanegol ar ddiwrnodau tawelach nad ydynt yn ddiwrnodau busnes. Yn unol â chynnydd yn y nifer sy'n dychwelyd i'r swyddfa, byddwn yn gallu gofyn am adborth gan Aelodau a staff am eu gofynion

a'u hanghenion o ran arddull ac ystod y gwasanaethau arlwyo.

15. Bydd y contract yn seiliedig ar fodel 'cost plws gyda gwarantau' ("cost plus with guarantees" yn Saesneg), lle mae terfyn ar y gwariant contract ar gyfer costau llafur, bwyd ac eitemau amrywiol ar ganrannau sy'n gysylltiedig â gwerthiannau'r gwasanaeth. Bydd y model hwn yn galluogi gwasanaeth yn y dyfodol i fod yn hyblyg ac esblygu yn unol â mathau newydd o wasanaeth, anghenion cwsmeriaid ac adborth mewn ymateb i wahanol batrymau presenoldeb a deiliadaeth. Mae'n debygol y bydd gwasanaethau arloesol y gall contractwyr eu cyflwyno gan eu bod wedi addasu a datblygu gwasanaethau mewn ymateb i wersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig.

16. Bydd y fanyleb yn cael ei diweddaru i gynnwys yr angen am arddulliau gwasanaeth hyblyg a newidiol ond bydd angen sicrhau bod safonau gwasanaeth ac amcanion allweddol ar gyfer y Senedd yn cael eu cynnal, gan gynnwys:

- adlewyrchu arfer gorau'r diwydiant arlwyo
- cydymffurfiad statudol sicr a diogelwch bwyd
- gwneud y defnydd mwyaf posibl a chynyddu'r defnydd o gyflenwyr Cymreig a chynhyrchu a darparu adroddiadau chwarterol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol o wariant gyda chyflenwyr a'u cadwyn gyflenwi
- cynaliadwyedd (achrediad IS014001, lleihau gwastraff bwyd, dileu'r defnydd o blastig untro, ailgylchu olewau gwastraff, lleihau ac ailddefnyddio pecynnau
- cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol (achrediad bwyd am oes cymdeithas y pridd, bwyd rhyddid, masnach deg, cynnyrch gwarant fferm, cyngor stiwardiaeth morol)
- cefnogi lles a bwyd iach a maethlon
- darparu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith a hyfforddiant
- cydymffurfio â'r cynllun ieithoedd swyddogol

**Yr amserlen ddangosol ar gyfer caffael**

| **Gweithgaredd** | **Disgrifiad** | **Pryd** |
|---|---|---|
| Ymgynghoriadau rhagarweiniol ar y farchnad | Nodi cyflenwyr o Gymru yn y farchnad a'u hysbysu am y cyfle | 18 Mawrth 2022 |
| Cwblhau'r strategaeth gaffael | Mapio cwmpas y caffael, y risg, a chynllun ar gyfer cyflawni'r contract | 18 Mawrth 2022 |
| Asesiad risg cynaliadwyedd | Cynnal asesiad risg cynaliadwyedd ar gyfer y contract | 21 Mawrth 2022 |

Contract Arlwyo

| **Gweithgaredd** | **Disgrifiad** | **Pryd** |
|---|---|---|
| Cwblhau’r gofynion, holiadur cyn-gymhwyso, a dogfennau gwahoddiad i dendro | Cwblhau’r dogfennau gwahoddiad i dendro | 21 Mawrth 2022 |
| Cyhoeddi hysbysiad contract ar GwerthwchiGymru a gwasanaeth Canfod Tendr | Cynhyrchu hysbysiad contract a chreu prosiect o fewn system e-dendro Bravo. | 22 Mawrth 2022 |
| Dyddiad cau ar gyfer holiaduron cyn-gymhwyso | Dyddiad cau ar gyfer holiaduron cyn-gymhwyso | 19 Ebrill 2022 |
| Gwerthuso holiaduron cyn-gymhwyso a chwblhau'r rhestr dendro | Panel o werthuswyr i gwrdd a gwerthuso holiaduron cyn-gymhwyso. | 25 Ebrill 2022 |
| Ôl-drafodaeth gyda chyflenwyr | Ymgymryd ag ôl-drafodaeth gyda’r cyflenwyr hynny na fyddant yn cael eu hystyried ymhellach | 2 Mai 2022 |
| Dechrau’r cam tendro | Cyhoeddi’r tendr yn Bravo | 9 Mai 2022 |
| Dyddiad cau'r tendr | Tendrau’n cael eu cyflwyno | 6 Mehefin 2022 |
| Gwerthuso tendrau a gyflwynwyd | Panel i gynnal cyfarfodydd i werthuso a rhoi sgôr i gynigion, ac i egluro | 20 Mehefin 2022 |
| Cyflwyniadau cyflenwyr | Panel i werthuso'r cyflwyniadau | 27 Mehefin 2022 |
| Adroddiad dyfarnu'r contract | Bwrdd Gweithredol i gytuno ar yr adroddiad dyfarnu contract drafft | 11 Gorffennaf 2022 |
| Llythyrau canlyniad | Anfon llythyrau canlyniad a dechrau'r cyfnod segur | 18 Gorffennaf 2022 |
| Cyfnod segur yn dod i ben | Ymgymryd ag ôl-drafodaeth gyda’r cyflenwyr aflwyddiannus | 1 Awst 2022 |
| Dyfarnu'r contract | Dyfarnu'r contract | 8 Awst 2022 |

Contract Arlwyo

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Pryd |
|---|---|---|
| Trefniadau trosglwyddo | Darpariaeth ar gyfer trosglwyddo i gyflenwr newydd | 2 Medi 2022 |
| Contract yn dechrau | Contract yn dechrau | 5 Medi 2022 |

**Strategaeth Cyrchu**

17. Bydd y cyfle am gontract yn cael ei hysbysebu ar wefannau GwerthwchiGymru a gwasanaeth Canfod Tendr. [redacted]

**Opsiwn 2 – lotiau ar wahân yn y contract**

[redacted] Ystyriwyd yr opsiwn hwn yn flaenorol gan y Comisiwn. Cydnabuwyd bod nifer o heriau ymarferol a gweithredol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae'n debygol hefyd y bydd costau uwch ar gyfer gwasanaethau ar wahân oherwydd colli arbedion maint ar gyfer adnoddau staff, rheolaeth a chyflenwadau ar gyfer y contract, ynghyd â materion TUPE y bydd angen eu goresgyn. Er y gall rhannu contractau mawr yn lotiau, pan fo'n briodol, gynnig gwell cyfleoedd i gyflenwyr o Gymru, mae ffyrdd eraill y gallwn gyflawni hyn, megis sicrhau cyfleoedd cadwyn gyflenwi drwy'r prif gontract. [redacted]

19. Un ffactor sylweddol sy'n rhwystr o ran rhannu'r contract yn lotiau yw'r seilwaith ffisegol o ran cyfleusterau cegin ac arlwyo. Er bod cegin fach iawn wrth ymyl y caffi cyhoeddus, a chegin fach a phantri wrth Barlwr Te'r Aelodau yn Nhŷ Hywel, mae'r prif waith i baratoi bwyd yn cael ei wneud yn y brif gegin yn Nhŷ Hywel, ynghyd â'r oergelloedd a rhewgelloedd a chyfleusterau storio. Mae rheoliadau hylendid a diogelwch bwyd yn gofyn am un pwynt cyfrifoldeb a rheolaeth. Ni all gweithredwyr ar wahân rannu'r cyfleusterau, y gofod a'r offer hyn.

20. Byddai contract ar wahân ar gyfer lletygarwch yn golygu y byddai angen i fwyd gael ei baratoi oddi ar y safle ac yna ei ddosbarthu, ynghyd ag offer dros dro yn ôl yr angen i gynhesu ac oeri'r bwyd yn ogystal â llestri a chyflenwadau. Mae'n debygol hefyd y bydd materion yn gysylltiedig â sicrhau fetio priodol a chliriadau diogelwch ar gyfer staff sy'n darparu'r gwasanaeth.

Contract Arlwyo

21. Mae’r strwythur staffio yn y contract presennol yn cynnig arbedion maint ar gyfer adnoddau staffio gan gynnwys rheoli’r contract a hyblygrwydd o ran staff i gwmpasu gwahanol agweddau ar y gwasanaeth yn ystod cyfnodau prysur a chyfnodau o salwch ac absenoldeb gwyliau. Mae nifer yr ymwelwyr â’r caffi cyhoeddus yn amrywio'n sylweddol yn ystod y flwyddyn. Ar adegau tawelach, mae staff yn cael eu hadleoli i elfennau eraill o’r gwasanaeth, ac ar adegau prysurach fel toriad yr haf, gall staff o'r prif wasanaethau gynorthwyo gyda'r caffi cyhoeddus. Byddai'r hyblygrwydd hwn ac arbedion cost yn cael ei golli pe bai'r contract yn cael ei rannu'n lotiau. Mae’r hyblygrwydd sy’n gysylltiedig â chael un contract hefyd yn ymestyn i rannu cyflenwadau bwyd ar draws y gwahanol leoliadau, sydd hefyd yn helpu i leihau gwastraff bwyd a chostau bwyd sy’n gysylltiedig â gwasanaethau ar wahân.

[redacted]

23. Byddai angen ystyried materion TUPE mewn perthynas â staff sydd wedi'u contractio i'r contractwr presennol hefyd.

**Opsiwn 3 – dod â'r gwasanaeth yn fewnol**

24. Darparwyd adroddiad manwl i’r Comisiwn ym mis Mawrth 2021 oherwydd costau uwch a nodwyd a gorbenion rheoli a nifer y staff. Nodwyd y byddai angen amser ychwanegol i ymchwilio i’r opsiwn hwn ac isafswm o 12 mis i’w weithredu.

[redacted] Mae llawer o agweddau cadarnhaol i’r opsiwn hwn: byddai'n rhoi rheolaeth i'r Comisiwn dros ei drefniadau arlwyo a’i ffynonellau cyflenwi, a'r hyblygrwydd i newid i ddiwallu anghenion newydd – yn yr union ffordd yr ydym yn ei wneud â gwasanaethau'r Comisiwn a ddarperir yn uniongyrchol. [redacted]

26. Mae’n debygol hefyd y byddai angen i ni greu ac ariannu nifer o swyddi rheoli a chymorth ychwanegol i gynnal y gwasanaeth, i gyflawni rhai o'r swyddogaethau y byddai contractwr yn gyfrifol amdanynt.

Contract Arlwyo

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

31. Mae amseru yn ffactor i'w ystyried gyda'r opsiwn hwn, fel a ganlyn:

- Cymerodd 18 mis i ddod â’r gwasanaeth TGCh yn fewnol; nid ni fyddai dod â’r gwasanaeth hwn yn fewnol mor gymhleth; fodd bynnag, yn seiliedig ar brofiad, mae'n debygol y byddai angen o leiaf 12 mis i sefydlu gwasanaeth newydd a chwblhau'r holl drefniadau masnachol ac ymgynghori â Charlton House, gan gynnwys TUPE.
- [redacted]
- Bydd estyniad contract byrrach yn rhoi mwy o amser i archwilio’r opsiwn hwn yn fanylach.

**Llywodraethiant**

*Goblygiadau ariannol*

32. Darperir gwasanaethau arlwyo dan gontract yn y cyllidebau gweithredol presennol ac yn y dyfodol ar gyfer gwasanaeth arlwyo wedi'i aildendro. Bydd amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer newidiadau i wasanaethau arlwyo yn y dyfodol

yn cael eu datblygu fel rhan o'r broses paratoi ar gyfer tendro.

33. Bydd angen asesu opsiynau mwy arloesol yn y dyfodol fel rhan o waith cynllunio a pharatoi cyllideb yn y dyfodol.

*Rheoli risg, gan gynnwys unrhyw faterion o bwys i enw da*

34. Mae’r contract presennol eisoes wedi’i ymestyn am flwyddyn ac er bod ansicrwydd o hyd ynghylch anghenion a gofynion lefelau gwasanaeth yn y dyfodol, bydd contract byrrach yn galluogi’r gwasanaeth i gael ei newid a’i addasu yn unol â chynnydd yn y nifer sy’n dychwelyd i’r swyddfa er y rhagwelir y bydd nifer y staff ar yr ystâd yn nag ydoedd cyn y pandemig.  Bydd y model contract cost plws gyda gwarantau yn rhoi rhywfaint o sicrwydd cost a hyblygrwydd i sicrhau y gellir addasu a rheoli gwasanaethau o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt.

Contract Arlwyo

**Atodiad 1**

[redacted]